**Tim Arweinyddiaeth Corfforaethol**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**Y CYNGOR**

Dyddiad ac Amser

**1.00 y.h., DYDD IAU, 3YDD RHAGFYR, 2020**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol - Zoom**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD Dydd Mercher, 26 Tachwedd 2020)

**Dilwyn Williams**
**Prif Weithredwr**

www.gwynedd.llyw.cymru

**DYDD IAU, 26 TACHWEDD 2020**

Annwyl Gynghorydd,

**CYFARFOD O GYNGOR GWYNEDD – DYDD IAU, 3 RHAGFYR 2020**

**FE’CH GWYSIR TRWY HYN** i gyfarfod rhithiol drwy Zoom o **GYNGOR GWYNEDD** a gynhelir am **1.00 y.h., DYDD IAU, 3YDD RHAGFYR, 2020** i ystyried y materion a grybwyllir yn y rhaglen a ganlyn.

Yr eiddoch yn gywir

Prif Weithredwr

# RHAGLEN


**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. COFNODION** 5 - 20

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion Cyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar 1 Hydref, 2020 fel rhai cywir (ynghlwm).

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd.

**5. GOHEBIAETH, CYFATHREBIADAU, NEU FUSNES ARALL**

Derbyn unrhyw ohebiaeth, gyfathrebiadau neu fusnes arall a ddygir gerbron yn arbennig gan gyfarwyddyd y Cadeirydd.

**6. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**7. CWESTIYNAU**

Ystyried unrhyw gwestiynau y rhoddwyd rhybudd priodol ohonynt o dan Adran 4.9 o'r Cyfansoddiad.

**8. CYNLLUN GOSTYNGIADAU TRETH CYNGOR 2021/22** 21 - 26

Cyflwyno adroddiad yr Aelod Cabinet Cyllid (ynghlwm).

**9. TRETH CYNGOR: HAWL DISGRESIWN I GANIATAU DISGOWNTIAU A/NEU GODI PREMIWM 2021/22** 27 - 33

Cyflwyno adroddiad yr Aelod Cabinet Cyllid (ynghlwm).

**10. CYTUNDEB TERFYNOL AR GYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU** 34 - 227

Cyflwyno adroddiad Arweinydd y Cyngor (ynghlwm).

**11. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU 2019/20** 228 - 242

Cyflwyno adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Safonau (ynghlwm).

## 12. RHYBUDD O GYNNIG

Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrtho dan Adran 4.20 o'r Cyfansoddiad, bydd y Cynghorydd Paul Rowlinson yn cynnig fel a ganlyn:-

"Penderfyna'r Cyngor:

(a) Ysgrifennu at Lywodraeth Cymru a gofyn iddi ddefnyddio unrhyw bwerau sydd ganddi i liniaru unrhyw effaith andwyol ar anifeiliaid a phobl sy'n agored i niwed a achosir gan arddangosfeydd tân gwyllt.
(b) Ysgrifennu at Lywodraeth y DG a gofyn iddi gyflwyno deddfwriaeth i osod uchafswm lefel sŵn o 90dB ar gyfer tân gwyllt a werthir i'r cyhoedd ar gyfer arddangosfeydd preifat.
(c) Gofyn i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau roi sylw o fewn ei raglen waith i adolygu pa gamau all y Cyngor gymeryd i hyrwyddo neu annog :

    - fod pob arddangosfa tân gwyllt gyhoeddus o fewn ffiniau'r sir yn cael ei hysbysebu ymlaen llaw, o fewn ei gyffiniau gan roi cyfle i bobl gymryd rhagofalon dros eu hanifeiliaid a phobl sy'n agored i niwed.
    - ymgyrch i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o effaith tân gwyllt ar les anifeiliaid a phobl sy'n agored i niwed – gan gynnwys y rhagofalon y gellir eu cymryd i liniaru risgiau.
    - cyflenwyr lleol tanau gwyllt i werthu tân gwyllt llai swnllyd ar gyfer arddangosfeydd cyhoeddus.
    - pobl i gyfyngu defnyddio tân gwyllt i gyfnod agos at ddyddiadau arbennig."